Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Rheoli Mercwri (Gorfodi) 2017

Ionawr 2018

## 01. Y cefndir

**1.** Ar 7 Rhagfyr 2017, yn unol â Rheol Sefydlog 30A, gosodd Hannah Blythyn AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Rheoli Mercwri (Gorfodi) 2017 gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

**2.** Mae Rheol Sefydlog 30A yn datgan bod yn rhaid i aelod o'r llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol perthnasol a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU, os yw Offeryn Statudol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

## 02. Y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

**3.** Mae'r memorandwm yn nodi fel a ganlyn:

> " Amcan Rheoliadau Rheoli Mercwri (Gorfodi) 2017 ("y Rheoliadau Gweithredu") yw gweithredu yng nghyfraith y DU, Reoliad UE 2017/852 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fercwri ("Rheoliad yr UE"). Mae Rheoliad yr UE hwn yn gweithredu ar lefel Cymuned y Confensiwn Minamata ar Fercwri 2013, a lofnodwyd gan yr UE ac Aelod Wladwriaethau. Mae'r Rheoliadau Gweithredu wedi'u gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac maent yn berthnasol i'r DU gyfan."[1]

**4.** Mae'r Memorandwm yn egluro sut mae "mercwri'n sylwedd gwenwynig, ac mae Rheoliad yr UE yn pennu mesurau...er mwyn diogelu, i lefel uchel, iechyd pobl a'r

[1] Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol paragraff 3

amgylchedd rhag allyriadau a gollyngiadau gwneud o fercwri a chyfansoddion mercwri".[2]

**5.** Er mwyn gallu gweithredu Rheoliad yr UE yn effeithiol, mae'r Rheoliadau Gweithredu, yn ôl y Memorandwm, yn creu nifer o droseddau troseddol a chosbau sifil cyfatebol, mewn perthynas â gweithredu'n groes i'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn Rheoliad yr UE. Mae'r Rheoliadau Gweithredu yn dynodi awdurdodau gorfodi ("enforcing authorities") ac awdurdodau cymwys ("competent authorities") a'u gwaith nhw yw gorfodi yn erbyn achosion o dorri Rheoliad yr UE, a chyflawni dyletswyddau eraill o dan Reoliad yr UE.[3]

**6.** Mae'r memorandwm yn nodi fel a ganlyn:

> " Mewn perthynas â Chymru, y prif awdurdod gorfodi (a'r awdurdod cymwys hefyd) yw Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Fel y cyfryw, bydd CNC yn gyfrifol yng Nghymru am erlyn troseddau troseddol neu roi cosbau sifil mewn achosion o dorri Rheoliad yr UE, ynghyd â dyletswyddau gweinyddol sy'n codi o Reoliad yr UE."[4]

**7.** Bydd cyflawni'r dyletswyddau newydd hyn yn arwain at gostau i CNC, ynghyd â'r awdurdodau gorfodi (cymwys) yng ngweinyddiaethau eraill y DU..[5]

**8.** Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru fod y darpariaethau a wneir gan y Rheoliadau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, fel y nodir ym mharagraff 10 yn y Memorandwm.[6]

**9.** Rydym hefyd yn cytuno â Llywodraeth Cymru ei bod hi'n briodol ymdrin â rhoi pŵer i Gyfoeth Naturiol Cymru wneud cynllun codi tâl, ochr yn ochr â diwygiadau tebyg ar gyfer y gweinyddiaethau eraill yn y DU, o fewn offeryn statudol y DU gan y bydd hyn, fel y nodir yn y Memorandwm, yn sicrhau dull cyffredin mewn perthynas â chynlluniau codi tâl ledled y DU".[7]

**10.** Mewn gohebiaeth, dywedodd y Gweinidog yr Amgylchedd ei bwriad i beidio â chyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol i'w drafod.[8]

---

[2] Memorandwm Cydsynio Offeryn Statudol paragraff 4
[3] Memorandwm Cydsynio Offeryn Statudol paragraff 6
[4] Memorandwm Cydsynio Offeryn Statudol paragraff 7
[5] Memorandwm Cydsynio Offeryn Statudol paragraff 8
[6] Memorandwm Cydsynio Offeryn Statudol paragraff 10
[7] Memorandwm Cydsynio Offeryn Statudol paragraff 12
[8] Llythyr gan y Gweinidog yr Amgylchedd at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Rhagfyr 2017

# 03. Ystyriaethau

**11.** Trafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn ein cyfarfod ar 8 Ionawr 2018.

# 04. Casgliad

**12.** Rydym yn fodlon ar y Memorandwm.